



Care & Repair Cymru

---

# O DRAUL I GYFLWR GWAEI: ACHOS AC EFFAITH TAI GWAEI

---

Adroddiad Care & Repair Cymru



## Am yr Adroddiad Hwn

Mae Care & Repair yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno Grant Rhwyd Diogelwch i berchenogion tai hŷn sy'n byw mewn tai peryglus, anaddas.

Yn Ionawr 2023, fe wnaethom gyhoeddi ein hadroddiad, [Cyflwr Tai Pobl Hŷn yng Nghymru](#). Roedd yr adroddiad yn defnyddio data cleientiaid gwirioneddol, a chyfweliadau gyda staff Gofal a Thrwsio i ddangos yr anawsterau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu wrth gynnal cyflwr eu cartref yn hwyr yn eu hoes.

Mae Gofal a Thrwsio yn cychwyn ar gyfres o 'blymiadau dwfn' i'r materion a godwyd yn yr adroddiad *Cyflwr Tai Pobl Hŷn* gwreiddiol.

Yn gyntaf: tai mewn cyflwr gwael.

Mae'r enghreifftiau o dai mewn cyflwr gwael sy'n beryglus yng Nghymru yn cynyddu. O bob agwedd ar wella cartrefi yr ydym yn eu cefnogi, mae tai mewn cyflwr gwael yn parhau'r broblem tai yr ydym yn ei gweld anoddaf i'w chywiro. Oherwydd cyfuniad o incwm isel ein cleientiaid, diffyg contractwyr dibynadwy, a'r diffyg cydbwysedd o ran diogeliad polisi i berchenogion tai, mae tai mewn cyflwr gwael yn mynd heb ei atal a heb ei ddatrys.

Mae tai mewn cyflwr gwael yn cael effaith ddifrifol ar iechyd a llesiant pobl hŷn sy'n byw yn yr eiddo anaddas yma. Yn yr adroddiad hwn rydym yn esbonio sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod stoc tai Cymru yn addas i boblogaeth sy'n heneiddio, a chenedlaethau'r dyfodol.



## Am Gofal a Thrwsio

Gofal a Thrwsio yw hyrwyddwr tai pobl hŷn yng Nghymru. Rydym yn gwella cartrefi i newid bywydau. Rydym yn credu y dylai pob person hŷn yng Nghymru:

- Fyw mewn cartref sy'n ddiogel ac yn addas i fyw ynddo.
- Gynnal ei iechyd gartref.
- Gadw'n gynnes yn ei gartref.
- Gael mynediad hawdd at addasiadau angenrheidiol i'w helpu i fyw'n annibynnol gydag urddas yn ei gartref ei hun.

## Am Ein Cleientiaid

Mae cleientiaid Gofal a Thrwsio mewn risg neilltuol oherwydd oblygiadau iechyd a llesiant tai mewn cyflwr gwael. Casglodd Asiantaethau Gofal a Thrwsio ddata gwaith achos am y nifer o achosion tai mewn cyflwr gwael y maent yn ymdrin â nhw yn flynyddol. Yn 2022-23:

- Roedd dros 8,800 o achosion gyda'r prif ganlyniad o atal codymau; mae hyn yn allweddol i Gofal a Thrwsio, gan y gall tai mewn cyflwr gwael gynyddu'r risg y bydd codymau yn y cartref.
- Cyflawnodd 1,688 o achosion Asiantaethau'r prif ganlyniad 'Cynnal a Chadw Cyffredinol a Thrwsio Cartref'.
- Cyflawnodd 2,084 o achosion Asiantaeth y prif ganlyniad 'Diogelwch', sy'n berthnasol i ddiogelwch ffabrig y cartref a'r rhai sy'n trigo yno.
- Cafodd 113 o achosion Asiantaeth y prif ganlyniad lleihau'r dŵr sy'n treiddio, tamprwydd a llwydni.

## Canfyddiadau Allweddol


- Cofnodwyd 8.2% o'n hymyraethau gyda chleientiaid fel 'Cynnal a chadw cyffredinol a thrwsio cartref'.
- Cofnodwyd 10.2% o'n prif ganlyniadau ymyrraeth fel 'Diogelwch'.
- Mae cleientiaid yn chwilio am fwy o gefnogaeth gan gronfeydd caledi Gofal a Thrwsio, cronfeydd elusennol ac elusennau lleol i helpu i ariannu gwaith trwsio hanfodol.
- Mewn un flwyddyn rydym wedi gweld cynnydd o 130% mewn gwaith elusennol i wella amodau mewn tai.

## Pryd fydd Traul yn troi yn Gyflwr Gwael?

Bob dydd, rydym yn gweld pobl hŷn yn byw mewn cartrefi yng Nghymru lle mae problemau bach wedi mynd yn broblemau cyflwr gwael mawr. Gall cyflwr gwael fod yn drychinebus i fyw yn ei ganol ac mae'r pris yn un ariannol, emosiynol ac o ran iechyd.

Gall rhai ffurfiau o gyflwr gwael fod yn fân a gellir eu datrys yn gymharol hawdd;

- cyfnewid paen ffenestr
- gosod trothwy drws ar garpedi
- trwsio toiled sy'n gollwng.



O'i gadael heb eu datrys gall y rhain fynd yn llawer mwy difrifol a chreu risg sylweddol i strwythur y cartref a diogelwch y deiliaid. Nenfydau'n pydru oherwydd bod dŵr yn dod i mewn, ceblau trydan peryglus yn creu perygl o dân neu risiau mewn cyflwr gwael a all arwain at godwm.

Mae System Farnu Iechyd a Diogelwch Tai i fesur problemau mewn cartrefi. Gelwir problemau yn y cartref sy'n beryglus i iechyd yn 'Peryglon Categori 1', sy'n golygu eu bod yn 'eithafol' ac yn achosi 'risg ddifrifol ac ar unwaith i iechyd a diogelwch person'.

Mae 29 o beryglon sy'n ddigon peryglus i iechyd dynol i gael eu rhoi yng Nghategori 1. Mae hyn yn cynnwys problemau fel oerfel eithafol, tamprwydd a thyfiant llwydni, goleuadau, perygl o godwm a pheryglon trydanol.

Mae Gofal a Thrwsio yn gweld pobl yn byw mewn cartrefi gyda pheryglon Categori 1 yn fwy a mwy aml.

## Astudiaeth Achos 1: Mr a Mrs Howell

**Enw:** Mr a Mrs Howell

**Asiantaeth:** Gofal a Thrwsio Gogledd Ddwyrain Cymru

**Problem:** Mae Mr Howell yn byw gyda chanser angheuol, ac mae gan Mrs Howell nifer o gyflyrau iechyd meddwl a chorfforol. Fe wnaethant gysylltu gyntaf â Gofal a Thrwsio ynglŷn â materion y tu allan i'r eiddo, gan gynnwys llwybr gardd newydd. Dangosodd Gwiriad Cartref iach gan ein Gweithiwr Achos hyfforddedig bryderon ychwanegol gan gynnwys toiled yn gollwng a llawr cegin pwdr, anniogel yn strwythurol oddi tano. Roedd hyn yn creu risg y byddai'r llawr yn syrthio i'r seler agored oddi tanodd ac roedd yn berygl difrifol i Mr a Mrs Howell.

**Ymyrraeth:** Trwsiodd y toiled trwy gronfa caledi leol Gofal a Thrwsio, a rhoddwyd trawstiau pren a phropiau Acrow dan lawr y gegin i'w wneud yn ddiogel.

**Canlyniad:** Nid yw'r toiled bellach yn gollwng ac mae'n fwy diogel. Ni fydd y llawr yn dymchwel a gellir cerdded arno yn awr. Ond, defnyddiodd y cyllid ar y gwaith trwsio yma, ac ni lwyddwyd i gyflawni'r cais cyntaf am wasanaeth.



**Chwith:** Y tyllau yn y deunydd atal dŵr yn nho Mr Phillips.

**De:** Nenfwd yn bochio oherwydd bod dŵr yn dod i mewn a difrod i waliau yr ystafell wely a'r gwaith trydanol.

## Astudiaeth Achos 2: Mr Phillips

**Enw:** Mr Phillips

**Asiantaeth:** Gofal a Thrwsio Powys

**Problem:** Mae Mr Phillips yn byw ar ei ben ei hun mewn cartref parc. Fe wnaeth ymddeol yn gynnar oherwydd anabledd ac mae yn awr ar incwm isel. Fe wnaeth alw Gofal a Thrwsio am bod ei do yn gollwng a bod difrod i lawr yr ystafell wely oherwydd hynny.

**Ymyrraeth:** Cafodd Swyddog Technegol ddyfynbris ar gyfer to newydd, ond nid oedd Mr Phillips yn gallu fforddio hyn gan fod y dyfynbris isaf dros £7,000. Rhoddodd staff cynnal a chadw'r parc ddyfynbris o £390 am orchudd atal dŵr dros dro i roi mwy o amser i Mr Phillips i godi'r arian ar gyfer to newydd. Cafwyd dyfynbris ar wahân i drwsio llawr yr ystafell wely am £558.

**Canlyniad:** Sicrhawyd cyllid o'r Gronfa Gymorth (wedi ei ariannu trwy roddion gan gleientiaid) a chronfa Costau Byw Loteri Genedlaethol Gofal a Thrwsio i dalu am gost y gwaith. Cyfeiriwyd Mr Phillips at Therapi Galwedigaethol i gael asesiad ymolchi oherwydd ei anabledd.



**Chwith:** Difrod i'r llawr yn achosi risg o syrthio i Mr a Mrs Howell

**De:** Y trawstiau cynnal oedd yn pydru yn y seler a allai fod wedi dymchwel. Cynhaliwyd y rhain gan broapiau Acrow wedi eu gosod gan Gofal a Thrwsio.

# Pam bod yr achosion o Dai mewn Cyflwr Gwael yn cynyddu?



## Cost

Mae cost cyflogi contractwyr a'r deunyddiau y maen nhw'n eu defnyddio wedi cynyddu gyda chwyddiant a'r argyfwng costau byw.

Mae'r enghraifft isod yn defnyddio dyfynbrisiau gwirioneddol a roddwyd i Asiantaeth Gofal a Thrwsio am fwyler newydd am £5,000 a ffenestri newydd i fflat ar y llawr gwaelod am £3,300.

Mae costau'r gwaith trwsio yma yn fwy nag y mae person hŷn ar ddim ond y Pensiwn Gwladol Sylfaenol yn ei dderbyn mewn blwyddyn. Hyd yn oed gyda'r Pensiwn Gwladol Newydd (sydd ar gael i ddynion a aned cyn 6 Ebrill 1951 a menywod a aned ar ôl 6 Ebrill 1953) dim ond £2,300 sydd yn weddill ar gyfer biliau, bwyd, cludiant a hamdden am y flwyddyn.

Nid yw hyn yn fforddiadwy.



## Hinsawdd

Mae patrymau tywydd byd-eang mwy difrifol yn cael effaith ar bob rhan o'n bywydau, ac mae hyn yn cynnwys ein cartrefi.

Yn ogystal â hafau poethach, mae Cymru'n wynebu tywydd gwlypach. Tamprwydd a llwydni yw'r ail berygl Categori 1 sydd fwyaf amlwg yng nghartrefi Cymru, ar ôl oerfel eithafol.

Oherwydd y cynnydd yn y galw ymhlith ein cleientiaid, rydym wedi ychwanegu 'lleihau treiddiad dŵr, tamprwydd a llwydni' fel prif ganlyniad penodol i'r data yr ydym yn ei gasglu am gefnogi cleientiaid. Dyma oedd prif ganlyniad ymyrraeth i **143 o bobl y llynedd**, gyda channoedd mwy yn cael eu cefnogi trwy gamau meddal a chyngor.

### **Proffil Cleient**

Enw: Mr a Mrs Jones

Asiantaeth: Gofal a Thrwsio Gogledd Ddwyrain Cymru

Problem: Mae gan Mr Jones ddementia Korsakoff yn 57, a'i wraig yw ei ofalwr.

Roedd ganddynt llwydni yn eu hystafelloedd gwely a'u hystafell ymolchi. Mae Mr Jones yn dioddef o ffitiau a waethygydd o bosibl gan y llwydni, ac mae Mrs Jones hefyd yn poeni am ei hanadlu. Mae arnyn nhw angen to newydd oherwydd ei gyflwr presennol sy'n gadael dŵr i mewn.

Ymyrraeth: Cysylltu gyda'u hawdurdod lleol i gael cyllid i gefnogi'r gwaith hwn. Mae cartref Mr a Mrs Jones yn hen eiddo i'r cyngor.

Canlyniad: Nid oes unrhyw gronfeydd gan eu hawdurdod lleol ar gael yn awr nac yn debygol o fod yn y dyfodol. Gweithwyr achos yn gweithio i sicrhau cyllid ar gyfer hyn gan nad yw'r cwpl yn gallu gweithio oherwydd eu pryderon iechyd.

### **Proffil Cleient**

Enw: Mrs Tucker

Asiantaeth: Gofal a Thrwsio Cwm Taf

Problem: Mae gan Mrs Tucker bryderon iechyd gan gynnwys osteoarthritis, colli ei chlyw, a chataractau. Bydd gofalwyr yn ymweld bedair gwaith y dydd. Mae'r cartref yn dioddef tamprwydd difrifol a llwydni yn yr ystafell ymolchi a'r gegin. Mae Mrs Tucker yn hawlio PIP a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ac mae ganddi lai na £1,000 yn ei chynilion.

Ymyrraeth: Uned aer cynnes i gael ei osod i helpu i atal tamprwydd a lleihau tyfiant y llwydni yn y cartref.

Canlyniad: Ar hyn o bryd mae Gofal a Thrwsio yn codi arian i'r uned aer cynnes gael ei gosod, gan y bydd y gwaith fel arall yn costio £30-34k i'r gwaith mewnol ac allanol gael ei gwblhau.



## Contractwyr

Cofnododd ein Hasiantaethau eu bod wedi colli contractwyr trwy gydol y pandemig Covid-19 a'u bod wedi cael trafferth ers hynny i ddod o hyd i gontractwyr sydd ar gael ac enw da iddyn nhw:

*'Mae rhai o'r prisiau yr ydym wedi eu derbyn yn anferth. Ymhell dros chwyddiant. Mae'n anodd argymhell y dyfynbrisiau yma i gleientiaid. Fe gefais un dyfynbris ar gyfer cyfnewid to am £22,500, cyn cael un arall am £10,000.'* – Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych

Wrth eiriol dros gleientiaid ar incwm isel ac sy'n ddibynnol ar gyllid elusennol neu grant, mae Gofal a Thrwsio yn cael trafferth cystadlu gyda'r digonedd o waith preifat proffidiol sydd ar gael i gontractwyr:

*'Yr her yw bod yr eiddo yma angen gwario degau o filoedd arnyn nhw iddyn nhw gyrraedd y safon gofynnol hyd yn oed. I waethygu'r sialens, nid yw contractwyr da eisiau nac angen bod yn rhan o waith 'patsio' gan bod hyn yn rhoi cyfle i bobl eu beirniadu am wneud gwaith gwael ac o bosibl yn gyfrifol am y problemau sy'n siŵr o ddigwydd yn nes ymlaen.'* – Gofal a Thrwsio Sir Gaerfyrddin

Mae prinder sgiliau yn bodoli ym maes adeiladu a'r sgiliau arbenigol sy'n ofynnol i drwsio, cynnal a chadw a gwella adeiladau traddodiadol.<sup>i</sup> Yn fwy diweddar, mae'r prinder hwn hefyd yn amlwg ymhlith contractwyr sy'n gallu gwneud gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn ôl safnau PAS2035:

*'Mae prinder o gontractwyr sy'n golygu bod yr amser aros yn hir, gan aros tri neu bedwar mis...'* – Gofal a Thrwsio Sir Fynwy a Thorfaen

Yn y cyfnod hwn mae'r cyflwr gwael yn mynd yn waeth ac mae problemau eraill yn codi.

Heb weithredu, bydd y prinder sgiliau yn parhau: mae angen 9,100 yn ychwanegol o weithwyr medrus yng Nghymru erbyn 2027 i ymgymryd â'r cynlluniau effeithlonrwydd ynni ar raddfa fawr i ôl-osod stoc tai Cymru.<sup>ii</sup>

# Beth yw Effeithiau Tai mewn Cyflwr Gwael?

## Effeithiau iechyd tai mewn cyflwr gwael

Mae pedwar o bob pump o gleientiaid Gofal a Thrwsio yn datgan eu hunain bod ganddynt anabledd. Mae miloedd o'r bobl hŷn yr ydym yn eu gweld yn flynyddol yn byw gyda chyflyrau iechyd a salwch cysylltiedig.

- Mae cartrefi o ansawdd gwael a thai mewn cyflwr gwael yn costio tua £95 miliwn y flwyddyn i GIG Cymru, ac yn costio dros £1 biliwn y flwyddyn i gymdeithas Cymru.
- Mae 75% o farwolaethau dros ben yn ystod y gaeaf yn digwydd i bobl 75+ oed.
- Prif achosion marwolaethau yng Nghymru yn 2021–2022 oedd dementia ac afiechyd Alzheimer, ac yna afiechyd on resbiradol a chylchrediad y gwaed. Mae symptomau yr holl gyflyrau yma yn cael eu gwaethygu gan fyw mewn cartref oer.<sup>iii</sup>

Mae trwsio cartrefi yn waith galluogol hanfodol sy'n cefnogi byw'n annibynnol:

- Ni all cartref gyda waliau tamp gynnal rhai canllawiau yn strwythurol.
- Ni ellir gosod lifft grisiau mewn cartref lle nad yw'r trydan yn ddiogel.
- Ni fydd cartref heb inswleiddiad yn cael budd o bwmp gwres.

Mae cartrefi mewn cyflwr gwael yn gwaethygu cyflyrau iechyd neu anableddau corfforol. I rai cleientiaid ag anabledd, gall ymdrin â chyflwr gwael eu cartref yn annibynnol fod yn her.

Mae'r risg o gael codwm yn cynyddu mewn cartrefi mewn cyflwr gwael. Mae lloriau anwastad, sy'n rhoi, neu lithrig yn berygl sylweddol i bobl hŷn, yn arbennig y rhai sy'n fregus. Er bod Gofal a Thrwsio yn gallu asesu a gosod addasiadau i roi cymorth ffisegol o gwmpas y cartref, rhaid i dai mewn cyflwr gwael yn aml gael eu datrys yn gyntaf i wneud y cartref yn addas i'w addasu.

Codymau oedd yr un rheswm mwyaf am alwadau i Wasanaeth Ambiwlans Cymru'r llynedd:

- Roedd 12 o'r holl alwadau i WAST am rai oedd wedi cael codwm.
- Roedd 77% o'r galwadau yn ymwneud â chodymau gan bobl 65+.

- Roedd 72,000 (69%) yn gofyn am i'r ambiwlans fynd yno.
- Aeth 42,000 i'r ysbyty yn y diwedd.<sup>iv</sup>

## Effeithiau ariannol tai mewn cyflwr gwael

Gall cynnal a chadw cartref fod yn ddrud ar unrhyw adeg yn oes unigolyn. Ond i berson hŷn sy'n byw ar incwm gosodedig o bensiwn gwladol, gall cost sicrhau bod eu cartref yn ddiogel, hygyrch, cynnes ac heb beryglon fod yn fwy heriol.

O'n hadroddiad ymchwil yn ystod y gaeaf [Pobl Hŷn yng Nghymru: tlodi yng ngaeaf 2023-24](#) rydym yn gwybod bod y cleient Gofal a Thrwsio arferol yn gwario 19% o'i incwm ar y cyfleustodau. Mae hyn yn ganran uwch na blynyddoedd blaenorol, gan adael llai o incwm nag erioed o'r blaen ar gyfer y pethau hanfodol eraill, gan gynnwys gwaith trwsio a chynnal a chadw'r cartref.


Dengys ein data na all pobl hŷn fforddio gwaith trwsio ar eu cartref:

- Mae'r nifer o bobl sy'n dod at Gofal a Thrwsio wedi cynyddu yn flynyddol am y degawd olaf.
- Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae gwerth gwaith a gwblhawyd gan Gofal a Thrwsio wedi codi o 26% i bron £15.5 miliwn.
- Mae mwy o'r gwaith hwn yn cael ei ariannu gan arian elusennol, grantiau neu gronfeydd elusennol gan nad oes gan ddeiliaid tai unrhyw arian i wneud y gwaith trwsio eu hunain.

- Mae gan bron i 1 o bob 5 o bobl 55+ oed lai na £1000 o gynilion (2020)<sup>v</sup>
- Cymru sydd â'r ganran uchaf o'r boblogaeth heb gynilion o gwbl, ar 9.09% (2020)<sup>vi</sup>
- Mae'r bobl 65+ oes sy'n byw ar gyllideb negyddol wedi codi o 20% i bron 40% rhwng 2019 a 2023<sup>vii</sup>

- Mewn un flwyddyn rydym wedi gweld cynnydd o 130% mewn gwaith elusennol i wella amodau mewn tai.

### Nifer o swyddi yr ymgwymerwyd â hwy gan Gofal a Thrwsio wedi eu hariannu o wahanol ffynonellau



## Cost emosiynol tai mewn cyflwr gwael

Gall bod â chartref mewn cyflwr gwael gael nifer o effeithiau negyddol ar unigolyn, gan gynnwys ei lesiant emosiynol. I lawer o gleientiaid, gall bod â chartref mewn cyflwr gwael arwain at embaras a chywilydd, a all wedyn arwain at fwy o gyndynrwydd i godi llais a gofyn am gefnogaeth. Mae'r cylch hwn yn parhau nes bydd y cartref neu'r person yn cyrraedd pwynt o argyfwng, sy'n golygu bod angen mwy o ymyrraeth a help i gefnogi'r cartref a'r deiliaid.

Mae ein hastudiaeth achos isod yn rhannu enghraifft o hyn, gyda chanlyniadau emosiynol difrifol os na fydd yr achos yn cael ei ddatrys a'r cleientiaid yn derbyn cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn:

### **Proffil Cleient**

Enw: Mr Owens

Asiantaeth: Gofal a Thrwsio Sir Pen-y-bont ar Ogwr

Problem: Mae gan Mr Owens ddementia, ac mae angen cymorth 24 awr y dydd. Mae mab Mr Owens yn byw gydag o ac mae wedi rhoi ei waith i fyny i ofalu am ei dad. Nid oes dŵr poeth yn rhedeg yn eu cartref, dim gwres canolog, a dim nwy ar gyfer y popty. Y tegell maen nhw'n ei ddefnyddio i gael dŵr poeth. Mae Mr Owens mewn perygl o orfod mynd i ofal preswyl neu i'r ysbyty, a fyddai'n achosi straen ychwanegol i Mr Owens a'i fab. Nid yw ei fab yn cael unrhyw saib nac egwyl wrth ofalu am ei dad, gan waethygu ei gyflwr iechyd meddwl a chyflwr ei galon.

Ymyrraeth: Cefnogaeth aml-asiantaethol gan Swyddogion


Technegol, Gweithiwr Achos Dementia a Swyddog Ynni Cartref.

Canlyniad: Cymorth i archwilio cyllid elusennol i dalu am y gwaith trwsio y mae angen mawr amdano. Helpodd y Gweithiwr Achos fab Mr Owens i lenwi cais PIP i gynyddu eu hincwm. Cefnogaeth i gysylltu â lechyd yr Amgylchedd a Nyth i gael bwyler newydd a chymorth am y PSR.

## Rhaid i ni Dorri'r Cylch Tai Mewn Cyflwr Gwael

Dylai pob person hŷn yng Nghymru fedru byw mewn cartref heb unrhyw beryglon. Nid ydym yn credu y dylai unrhyw un yng Nghymru:

- Fynd yn wael oherwydd ei fod yn byw mewn tŷ oer.
- Fyw mewn cartref sy'n beryglus neu nad yw'n addas i fyw ynddo.
- Fod heb addasiadau angenrheidiol i'w helpu i fyw'n annibynnol gydag urddas yn ei gartref ei hun.



## Atebion Tymor Hir i weld Newid Tymor Hir

### Grant rhwyd diogelwch ar gyfer tai mewn cyflwr gwael

Rydym yn galw am grant rhwyd diogelwch i gywiro tai mewn cyflwr gwael peryglus yng Nghymru fel to yn gollwng a ffenestri drafftio a fydd yn gwella effeithlonrwydd thermal cartrefi ac yn diogelu rhag tywydd cyfnewidiol a stormus a fydd yn cael effaith ar ffabrig y cartref. Dysgwch ragor am hyn yn ein hadroddiad [Cyflwr Tai Pobl Hŷn yng Nghymru](#).

### Cysylltu tai ac iechyd yn gryfach mewn polisi a gweithredu

Mae tai gwael yn effeithio ar iechyd a llesiant pobl. Trwy ymdrin â chartrefi gwael a buddsoddi mewn cynnal a chadw a thrwsio, gallwn leihau'r pwysau ar wasanaethau gofal iechyd trwy sicrhau bod risgiau codymau, cartrefi oer a pheryglon eraill yn cael sylw cyn iddyn nhw achosi anaf neu salwch i'r deiliad.

### Gweithredu'r Hawl i Dai Digonol

Bydd cyflwyno a gweithredu'r Hawl hwn o fudd i bobl hŷn ar draws Cymru. Rhaid i'r Hawl hwn ymdrin â thai gwael ar draws pob math o ddaliadaeth a phob ardal yng Nghymru, gan gynnwys perchenogion-ddeiliaid. Bydd yr ymrwymiad hwn gan Lywodraeth Cymru yn rhoi hyder i bobl hŷn.

Mae angen atebion tymor hir i gadw'r gwres ymlaen i gadw'n ddiogel a chynnes yn y cartref, gan atal salwch sy'n gysylltiedig ag oerfel a rhagor o bobl yn mynd i'r ysbyty.

## Cyswllt

Er mwyn cael gwybod rhagor am ein gwaith polisi a'r adroddiadau sydd ar y ffordd, anfonwch e-bost at [becky.ricketts@careandrepair.org.uk](mailto:becky.ricketts@careandrepair.org.uk).

## Llyfryddiaeth

<sup>i</sup> CITB, 'Building Skills for Net Zero in Wales,' 2013. Ar gael yn: [b06414\\_net\\_zero\\_report\\_wales\\_v7.pdf \(citb.co.uk\)](#)

<sup>ii</sup> Construction Skills Network, 'The Skills Construction Needs', 2023. Ar gael yn: [csn-national-report-final-report.pdf \(citb.co.uk\)](#)

<sup>iii</sup> Iechyd Cyhoeddus Cymru, 'Cost Lawn Tai Gwael yng Nghymru,' 2019. <https://icc.gig.cymru/newyddion1/cost-tai-gwael-yng-nghymru/>; ONS, 'Death Registration Summary Statistics,' rhyddhawyd Ebrill 2023. Ar gael yn: [Death registration summary statistics, England and Wales - Office for National Statistics](#)

<sup>iv</sup> Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Cyflwyniad Hyfforddiant Codymau, 2024.

<sup>v</sup> Raisin, 'Average Savings by Age in the UK,' 2023. Ar gael yn: [Average savings by age in the UK \(2023\) | Raisin UK](#)

<sup>vi</sup> Raisin, 'Average Savings by Age in the UK,' 2023. Ar gael yn: [Average savings by age in the UK \(2023\) | Raisin UK](#)

<sup>vii</sup> Cyngor ar Bopeth, 'Data Dashboard,' 2024. Ar gael yn: [CA cost-of-living data dashboard | Flourish](#)



**Care & Repair Cymru**

[www.careandrepair.org.uk](http://www.careandrepair.org.uk)

Mae Care & Repair Cymru yn elusen gofrestrdedig (**Rhif 1163542**)  
ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant (**No. 09574555**).